

Sut i apelio yn erbyn penderfyniadau'n ymwneud â fy asesiad gofal cymdeithasol

Beth yw apêl?

Mae apêl yn gais i ailystyried penderfyniad a wnaed gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Torfaen mewn perthynas â chanlyniad yr asesiad neu adolygiad.

Nod y weithdrefn yw sicrhau yr ymdrinnir ag apelïadau mewn ffordd deg, effeithlon ac effeithiol ac o fewn proses agored a thryloyw.

Pwy all apelio?

Gall y person apelio, gyda chymorth neu heb gymorth; neu gall unrhyw un arall apelio ar ran unigolyn: aelod o'r teulu, ffrind, neu unrhyw un sydd â chaniatâd y person (os oes ganddynt y gallu i ganiatáu), neu os ydynt yn gwneud hynny er pennaf les y person (os nad yw'r person ei hun yn gallu).

Gall eiriolwr annibynnol hefyd apelio dros bobl sy'n cael anhawster sylweddol i gymryd rhan mewn asesiadau, cynllunio gofal neu adolygiadau gofal; gall fod yn eiriolwr annibynnol a benodir o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, neu unrhyw eiriolwr annibynnol eraill. Maent yn gymwys i apelio mewn perthynas â'r canlynol:

- Cymhwysedd - y penderfyniad ynghylch a yw person yn gymwys i gael gofal a chymorth drwy broses Asesu Unigol "yr hyn sy'n bwysig" yr awdurdod lleol.
- Asesiad - y broses a chanlyniad yr asesiad proffesiynol sy'n cael ei gwblhau i benderfynu anghenion cymwys.
- Adolygiad - y broses o benderfynu a yw person yn parhau i fodloni proses Asesu Unigol 'yr hyn sy'n bwysig' yr awdurdod lleol ar gyfer ymyrraeth gofal a chymorth.

- Cynllunio cymorth – lefel y dewis a'r rheolaeth sydd gan y person ynghylch sut y bydd y canlyniadau yn eu cynllun cymorth yn cael eu diwallu, yn cynnwys sut gefnogaeth y cawsant drwy gydol y broses hon.
- Taliadau uniongyrchol – cyfanswm yr arian a ddyrennir i'r person er mwyn iddo gyflawni'r canlyniadau sydd wedi eu nodi yn eu cynllun cymorth.

Graddfa amser

Rhaid cyflwyno'r apêl o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae unigolyn yn derbyn yn derbyn hysbysiad ynghylch y penderfyniad a wnaed gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Torfaen.

Bydd gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Torfaen ddisgresiwn i dderbyn apêl y tu hwnt i 10 diwrnod gwaith os bydd amgylchiadau wedi atal unigolyn rhag cyflwyno apêl. Fodd bynnag, ni dderbynnir apêl os yw'r mater neu'r digwyddiad dan sylw wedi digwydd dros 12 mis yn flaenorol.

Y Broses Apelio

Yn y lle cyntaf, gall Defnyddiwr Gwasanaeth neu berson sy'n gweithredu ar ei ran apelio at Rheolwr y Grŵp a hynny drwy lythyr, dros y ffôn neu e-bost. Fel arall, efallai y byddant yn penderfynu ffonio, ysgrifennu neu anfon e-bost at y Tîm Cymorth Busnes:

Tîm Cymorth Busnes
Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB
Ffôn: 01495 761608

socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

Mae yna ddau gam o fewn y weithdrefn apelio:

Cam 1 – adolygiad gan y grŵp rheoli Mynediad Teg i Ofal

Mae angen i Rheolwr Grŵp sy'n gyfrifol am oruchwylio'ch achos ddelio ag apêl ar Gam 1.

Rhaid i chi gyflwyno eich apêl o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cawsoch y penderfyniad yn ymwneud â'r asesiad neu adolygiad neu o ddyddiad y digwyddiad neu'r mater yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn.

Mae angen i chi nodi'n glir y materion yr apêl a'r canlyniad yr ydych yn ei geisio.

Byddwn yn cydnabod derbyn yr apêl o fewn 5 diwrnod gwaith o'i dderbyn.

Mae'n bosib y cewch gynnig eiriolwr i'ch cefnogi mewn perthynas â'r apêl.

Ein hamserlen o ran ystyried eich apêl yw 10 diwrnod gwaith o'r diwrnod y daw'r cais i law.

Bydd y Rheolwr Grŵp yn adolygu cofnodion perthnasol ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r manylion a ddarperir gennych. Bydd wedyn yn penderfynu a oes angen i ni gwrdd â chi, neu a oes ganddo ddigon o wybodaeth i fwrw ymlaen heb wneud hynny.

Bydd Rheolwr y Grŵp yn ysgrifennu atoch gyda'r canlyniad o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y gwnaethom ystyried eich apêl. Bydd yn eich cynghori ar y pryd bod modd i chi ofyn i symud ymlaen i ail gam y weithdrefn apelio os ydych dal yn anfodlon â chanlyniad yr apêl yng Ngham 1.

Cam 2

Bydd angen i chi neu'ch cynrychiolydd wneud cais ysgrifenedig i symud ymlaen i Gam 2. Dylai hyn fod o fewn 10 diwrnod

gwaith o'r dyddiad y derbyniwyd llythyr apêl Cam 1.

Dylech nodi pam eich bod yn apelio yn erbyn y canlyniad yng Ngham 1. Gallwch atodi'r manylion ysgrifenedig yn rhestru'r rhesymau pam yr ydych yn parhau i fod yn anfodlon.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn galw panel o Gydweithwyr Uwch at ei gilydd i adolygu'r achos yng Ngham 2, a rhaid darparu'r holl gofnodion perthnasol yn cynnwys llythyr adolygiad Cam 1 a gafodd ei anfon atoch. Mae'n rhaid iddynt ysgrifennu atoch o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y derbynnir yr apêl.

Bydd gan Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion y disgrisiwn i gynnwys eraill yn eu trafodaethau os ystyrir bod angen gwneud hynny. Yn ogystal, efallai y byddant yn penderfynu y byddai cyfarfod gyda chi neu eiriolwr yn gynorthwyol.

Daw hyn â'r broses apelio i'w therfyn. Os byddwch dal yn anfodlon gyda chanlyniad yr apêl, bydd gennych yr hawl i fynd at Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Dylech wneud hynny o fewn 12 mis o ddiwedd y broses apelio.